**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

**BIL LLES PLANT AC YSGOLION**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Lles Plant ac Ysgolion (“y Bil”) gerbron Tŷ’r Cyffredin, Senedd y DU, ar 17 Rhagfyr 2024. Gosodais LCM o dan RhS 29.2 ar 24 Mawrth 2025 mewn perthynas â gwelliannau a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mawrth.

3. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliant ar 13 Mai cyn dechrau Cyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 20 Mai. Mae'r gwelliant hwn yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig, a ddisgrifir ym mharagraffau 10 i 24 isod.

4. Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor yr Arglwyddi i'w weld yn y Bil Lles Plant ac Ysgolion.

**Amcanion y Polisi**

5. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw:

   Cael gwared ar rwystrau i gyfleoedd mewn ysgolion a gwella'r system addysg i'w gwneud yn fwy cyson a mwy diogel i bob plentyn. Mae hefyd yn ceisio cryfhau rheoleiddio gofal cymdeithasol i wella ansawdd gofal i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion plant, gan gadw plant wedi'u gwreiddio yn eu teuluoedd a chymunedau lleol lle bo hynny'n bosibl. O ran cyflogaeth plant, mae'r Bil yn ceisio rhoi mwy o hyblygrwydd i gyflogwyr a phlant a sicrhau bod plant yn cael mwy o gyfleoedd i gymryd gwaith cyflog addas, tra'n cadw'r mesurau diogelu presennol sy'n sicrhau nad yw cyflogaeth yn effeithio'n andwyol ar iechyd, datblygiad nac addysg plant.

**Crynodeb o'r Bil**

6. Noddir y Bil gan Adran Addysg Llywodraeth y DU.

7. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- gorchymyn awdurdodau lleol i gynnig ‘Family Group Decision Making’; (cymal 1 fel y'i cyflwynwyd)

- sicrhau amddiffyn a diogelu plant drwy gryfhau rôl addysg o ran diogelu, rhannu gwybodaeth yn well ar draws gwasanaethau amlasiantaeth, a galluogi un dynodwr unigryw ('dynodwr cyson') i gefnogi plant a theuluoedd (Cymalau 2-4 fel y'u cyflwynwyd)
- rhoi cymorth i blant sydd mewn gofal, sy'n gadael gofal neu sy'n cael gofal gan berthynas a gofalwyr gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi cynnig lleol ar gyfer gofal gan berthynas, estyn rôl pennaeth ysgol rithwir i blant sy'n cael gofal gan berthynas yn ogystal â'r rhai sydd â gweithiwr cymdeithasol, cryfhau cymorth i unigolion cymwys sy'n gadael gofal trwy 'Staying Close'; a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth i sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn cael cyfnod pontio wedi'i gynllunio i'w cynorthwyo i fod yn oedolyn. (Cymalau 5-8 fel y'u cyflwynwyd)
- deddfu ar gyfer llety plant sy'n derbyn gofal gan gyflwyno trefniadau cydweithredu rhanbarthol i elwa ar bŵer prynu awdurdodau lleol, a darparu fframwaith statudol i awdurdodi amddifadu rhyddid i blant sydd angen hynny i'w cadw'n ddiogel, mewn llety heblaw Cartref Plant Diogel, wedi'i gynllunio gyda'r prif bwrpas o roi gofal a thriniaeth (Cymalau 9-10 fel y'u cyflwynwyd)
- grymuso'r rheoleiddiwr, Ofsted, i fynd i'r afael ag achosion o dorri Deddf Safonau Gofal 2000, gan gynnwys yn erbyn cartrefi plant heb eu cofrestru; cyfyngu ar y defnydd o weithwyr cymdeithasol asiantaeth;
- sefydlu 'Financial Oversight Regime' i gynyddu tryloywder ariannol a chorfforaethol darparwyr gofal lle bo'n anodd cael rhai yn eu lle a'u perchnogion corfforaethol, yn ogystal â 'Provider Oversight Regime'; (Cymal 13 fel y'i cyflwynwyd);
- galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg i weithredu cap ar elw darparwyr gofal cymdeithasol plant nad ydynt yn awdurdodau lleol yn y dyfodol, a gosod cosbau ariannol a'r weithdrefn ar gyfer gosod cosbau o'r fath (Cymalau 14-17 fel y'u cyflwynwyd)
- rheoleiddio ar gyfer y defnydd o weithwyr asiantaeth ar gyfer gwaith cymdeithasol plant. (Cymal 18 fel y'i cyflwynwyd)
- estyn y troseddau presennol am achosion o gamdriniaeth neu esgeulustod bwriadol fel eu bod yn gymwys i blant 16 a 17 oed mewn lleoliadau gofal a chadw penodol Cymal 19 (fel y'i cyflwynwyd)
- deddfu mewn perthynas â chyflogi plant, drwy gyflwyno trefniadau newydd ar gyflogi plant yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (Cymal 20 fel y'i cyflwynwyd)
- deddfu i sicrhau bod clybiau brecwast am ddim ar gael i bob plentyn; (Cymal 21 fel y'i cyflwynwyd)
- deddfu mewn perthynas â bwyd a diod i'w ddarparu mewn Academïau (Cymal 22 fel y'i cyflwynwyd)
- cyfyngu ar nifer yr eitemau gwisg ysgol wedi'u brandio y gall ysgolion eu mynnu (Cymal 23)
- cyflwyno mecanwaith cael cydsyniad awdurdod lleol ar gyfer tynnu plant penodol o'r ysgol (Cymal 24 fel y'i cyflwynwyd)
- cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i gael a chynnal cofrestrau Plant nad ydynt yn yr Ysgol a darparu cymorth i rieni sy'n addysgu gartref a darparu canllawiau i gefnogi hyn. (Cymalau 25 a 28 fel y'u cyflwynwyd)

- gwella effeithlonrwydd y broses gorchymyn mynychu'r ysgol (Cymal 26 fel y'i cyflwynwyd)
- cryfhau a gwella deddfwriaeth mewn perthynas â sefydliadau addysg annibynnol, gan gynnwys Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymalau 30-37 fel y'u cyflwynwyd)
- gwneud newidiadau technegol sy'n gysylltiedig â phryd mae angen i Ofsted adrodd ar ansawdd arolygiaethau penodol eraill ac i roi pwerau i Ofsted rannu gwybodaeth gyda nhw. (Cymal 38 fel y'i cyflwynwyd)
- cryfhau'r system ar gyfer rheoleiddio'r proffesiwn addysgu (Cymal 39 fel y'i cyflwynwyd)
- gwella cymwysterau athrawon ysgol sy'n gofyn am Statws Athro Cymwysedig (Cymal 40 fel y'i cyflwynwyd)
- gosod dyletswyddau ar ysgolion Academi mewn perthynas â'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd; darpariaeth ar gyfer gwella ymddygiad; a thâl ac amodau athrawon (Cymalau 41 i 46 fel y'u cyflwynwyd)
- Cyflwyno pwerau newydd mewn perthynas â lleoedd ysgol a derbyniadau, (Cymalau 47-50 fel y'u cyflwynwyd)
- gwneud darpariaethau mewn perthynas â sefydlu ysgolion newydd (Cymalau 51 -55 fel y'u cyflwynwyd)

8. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfarfodydd a thrafodaethau rheolaidd â swyddogion Llywodraeth y DU. Dechreuodd trafodaethau ar gynnwys y Bil ym mis Medi 2024, a dros yr hydref, cawsant eu hehangu i ystyried estyn darpariaethau penodol i gwmpasu Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth y DU a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd ers hynny i drafod darpariaethau. Rwyf hefyd wedi bod yn trafod â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg am y darpariaethau.

9. Mae'r Bil yn rhyngweithio â:

   - Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933
   - Deddf Addysg 1996
   - Deddf Plant 1989
   - Deddf Plant 2004
   - Deddf Safonau Gofal 2000
   - Deddf Addysg a Sgiliau 2008
   - Deddf Addysg 2002
   - Deddf Academïau 2010
   - Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
   - Deddf Diogelu Data 2008

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod y Pwyllgor y bydd angen cydsyniad ar eu cyfer**

10. <u>Cymal 26 Cyflogi plant yng Nghymru a Lloegr</u>. Rhan II o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 ("Deddf 1933") sy'n nodi'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer cyflogi plant yng Nghymru a Lloegr. Ystyr "child", at ddibenion Deddf 1933, yw person nad yw dros oedran ysgol gorfodol.

11. Mae adran 18 o Ddeddf 1933 yn nodi terfynau oedran a chyfyngiadau ar yr oriau y caiff plant weithio a'r math o waith y cânt ei wneud. Mae adran 18(2) hefyd yn cynnwys pŵer i awdurdodau lleol wneud is-ddeddfau mewn perthynas â chyflogi plant; Gall is-ddeddfau gynnwys materion fel: (a) ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gael trwydded cyflogaeth plant gan yr awdurdod lleol cyn i blentyn ddechrau gwaith; (b) rhagnodi'r oriau, yr amseroedd a'r math o waith y caiff plant ei wneud; (c) awdurdodi cyflogi plant 13 oed i wneud "*gwaith ysgafn*".

12. Mae ffurfiau model o is-ddeddfau ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwr gael trwydded gyflogaeth gan yr awdurdod lleol cyn cyflogi plentyn.

13. Mae'n drosedd o dan adran 21 o Ddeddf 1933 i gyflogi plentyn yn groes i'r darpariaethau yn Rhan II o Ddeddf 1933 neu fel y'u darperir yn is-ddeddfau awdurdodau lleol.

14. Roedd y diwygiadau arfaethedig i adran 18 o Ddeddf 1933 wrth gyflwyno'r Bil yn berthnasol i ddechrau i Loegr yn unig. Mae'r diwygiadau i gymal 26 a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 17 Mai 2025 cyn Cyfnod y Pwyllgor a ddechreuodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 20 Mai, bellach yn estyn y diwygiadau i adran 18 o Ddeddf 1933 i Loegr a Chymru.

15. Mae cymal 26 o'r Bil yn dileu adran 18 Deddf 1933 ac yn rhoi adran 18 (Cyfyngiadau ar gyflogi plant) ac adran 18A (Rheoliadau o dan adran 18: darpariaeth bellach) newydd yn ei lle. .

16. Mae'r gwelliannau yn rhoi pŵer rheoleiddio newydd i Weinidogion Cymru fel yr "*awdurdod cenedlaethol priodol*" i Gymru i reoleiddio cyflogaeth plant. Mae'r pŵer rheoleiddio newydd hwn i Weinidogion Cymru yn disodli pŵer presennol awdurdodau lleol i wneud is-ddeddfau cyflogaeth plant. Byddai rheoliadau a wneir o dan y gwelliant yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol.

17. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cael yr un pŵer i wneud rheoliadau i reoleiddio cyflogaeth plant ag yn Lloegr a hefyd, nid yw awdurdodau lleol Lloegr yn cael gwneud is-ddeddfau cyflogaeth plant mwyach ar gyfer eu hardaloedd.

18. O dan y gwelliannau, dim ond o dan drwydded cyflogaeth plant a roddir gan awdurdod lleol yn sgil cais a wneir yn unol â rheoliad a wnaed gan Weinidogion Cymru y gellid cyflogi plant yng Nghymru.

19. Mae rheoliadau o dan y pŵer arfaethedig yn y Bil yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn cael awdurdodi cyflogi plant 13 oed mewn mathau penodol o "waith ysgafn", gwneud darpariaeth mewn perthynas â thrwyddedau cyflogaeth plant (gan gynnwys y broses ymgeisio, yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn trwydded, dirymu trwyddedau neu osod

amodau a hawliau apelio yn erbyn gwrthod trwydded), a chadw cofnodion.

20. Mae cymal 26 hefyd yn gwneud gwelliannau eraill i alluogi plant i weithio am fwy na 2 awr ar ddydd Sul a chyn neu ar ôl ysgol (er nad yw cyfanswm yr oriau y caiff plentyn ei weithio a'r math o waith y cânt ei wneud wedi newid).

21. Mae hawliau a dyletswyddau cyflogaeth wedi'u cadw yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; fodd bynnag, mae diogelu/lles yn faterion wedi'u datganoli. Ar hyn o bryd mae Rhan II o Ddeddf 1933 yn berthnasol i Gymru a Lloegr ac mae'n nodi terfynau oedran a chyfyngiadau ar yr oriau y caiff plant weithio a'r math o waith y gellid eu cyflogi i'w wneud. Mae adran 18 o Ddeddf 1933 yn gwneud darpariaeth hefyd i awdurdodau lleol wneud is-ddeddfau mewn cysylltiad â chyflogaeth plant.

22. Mae'r swyddogaethau gweithredol o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 yn cael eu harfer gan Weinidogion Cymru. Cawsant eu trosglwyddo i ddechrau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (Erthygl 2 ac Atodlen 1 paragraff 1). Felly, mae Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo is-ddeddfau cyflogaeth plant a gynigir gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

23. Bwriad y polisi yn y pen draw yw diwygio Deddf 1933 i ddileu'r pŵer i awdurdodau lleol wneud is-ddeddfau mewn perthynas â chyflogaeth plant ac yn ei le, rhoi pŵer iddynt wneud rheoliadau mewn perthynas â chyflogaeth plant.

24. Mae'r gwelliant arfaethedig yn estyn y ddarpariaeth hon i Gymru ac yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r awdurdod cenedlaethol priodol (Ysgrifennydd Gwladol Lloegr fel y darperir eisoes yn y Bil, a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru). Byddai creu pŵer gwneud rheoliadau hefyd yn dod â'r anghysondeb presennol i ben lle ceir pŵer i weinidogion wneud rheoliadau mewn perthynas â phlant sy'n perfformio ond dim pŵer i weinidogion wneud rheoliadau mewn perthynas â chyflogaeth plant. Mae hyn yn golygu y bydd plant sy'n gweithio a phlant sy'n perfformio yn cael eu rheoleiddio mewn ffyrdd tebyg yn y dyfodol gan y bydd Gweinidogion yn gallu gwneud rheoliadau mewn perthynas â phlant sy'n perfformio a phlant sy'n gweithio.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

25. Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar 13 Mai 2025 ynglŷn â gwelliannau i Gymal 26 (Cyflogi Plant) o'r Bil Lles Plant ac Ysgolion cyn Cyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 20 Mai. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod gwelliannau'r llywodraeth yn cynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a bod yr Ysgrifennydd o'r farn bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol er gwaethaf y ffaith bod

cyflogaeth yn fater wedi'i gadw'n ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae'r DfE yn cydnabod bod unrhyw fater sy'n ymwneud â chyflogaeth plant hefyd yn cyffwrdd â lles plant, sy'n fater wedi'i ddatganoli.

26. Gall rheoliadau o dan y pŵer arfaethedig yn y Bil awdurdodi cyflogi plant 13 oed mewn mathau penodol o "waith ysgafn", gwneud darpariaeth mewn perthynas â thrwyddedau cyflogaeth plant (gan gynnwys y broses ymgeisio, yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn trwydded, dirymu trwyddedau neu osod amodau a hawliau apelio), a chadw cofnodion. Er mai'r prif nod yw disodli pŵer gwneud is-ddeddfau ALl â phŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, mae effeithiau eraill y mesur yn cynnwys y canlynol:

- Gwahardd cyflogi plentyn heblaw yn unol â thrwydded.
- Caniatáu i blentyn weithio tan 8pm. Mae hyn yn lle 7pm, ond mae'n dal i fod yn gyson â rhwymedigaethau rhyngwladol.
- Dileu'r cyfyngiad ar blant i weithio dim ond am ddwy awr ar ddydd Sul. Fodd bynnag, bydd nifer yr oriau y caiff plentyn weithio mewn wythnos yn aros yn ddigyfnewid.
- Caniatáu i blentyn weithio am awr cyn ysgol. Mae hyn eisoes yn cael ei ganiatáu o dan y rhan fwyaf o is-ddeddfau awdurdodau lleol.

27. Bwriad y polisi yw dileu'r cyfyngiad ar weithio dydd Sul, gan drin dydd Sul yr un fath â dydd Sadwrn, lle mae cyflogwyr, yn ogystal â phlant a phobl ifanc eu hunain, wedi lobïo o blaid hyn gan roi'r brif neges bod y cyfyngiad hwn yn deillio o oes arall. Y cynnig yw caniatáu i blant weithio tan 8pm, er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd i fusnes, ond gan gadw'r terfyn cyffredinol o 12 awr yr wythnos a osodwyd ar gyfer yr wythnosau hynny mae plant yn mynychu'r ysgol. Mae'r DfE wedi trafod yn helaeth â chyflogwyr a chyrff y sector yn ogystal â phlant a phobl ifanc ac roeddent yn gefnogol i'r newidiadau hyn.

28. Mae hawliau a dyletswyddau cyflogaeth wedi'u cadw yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; fodd bynnag, mae diogelu/lles yn faterion wedi'u datganoli. Rydym wedi edrych ar gymhwysedd y darpariaethau hyn ac rydym o'r farn bod y prawf yn Rheol Sefydlog 29 wedi'i fodloni a bod y Bil yn gwneud "darpariaeth berthnasol" mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Lles Plant ac Ysgolion**

29. Mae gwneud darpariaeth yn y Bil hwn gan Senedd y DU yn galluogi cyflawni darpariaeth gadarnhaol i Gymru. Er y gellid cyflwyno darpariaeth mewn Bil gan y Senedd, byddai gwneud hynny'n effeithio ar gyflawni blaenoriaethau deddfwriaethol eraill ac ni ellid ei chyflawni o fewn yr un amserlenni â Bil y DU. Mae bod yn rhan o'r Bil hwn yn sicrhau bod plant Cymru yn cael yr un amddiffyniadau â phlant Lloegr o ran cyflogaeth plant.

30. Mae'n sicrhau bod cydraddoldeb yn y gyfraith ledled Cymru a Lloegr yn y maes hwn. Os na ddywedir bod y gwelliannau hyn yn berthnasol i Gymru, byddai Cymru'n cadw'r system is-ddeddfau bresennol tra byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr yn cael arfer pwerau i wneud rheoliadau yn y maes hwn. Un o fanteision cyflwyno pwerau gwneud rheoliadau fyddai cysondeb o ran rheoliadau a threfn safonol i fynnu trwyddedau cyflogaeth plant ledled Cymru (yn hytrach na gwahaniaethau posibl yn hyn o beth fyddai'n deillio o barhau i ganiatáu i awdurdodau lleol gyflwyno a gweithredu is-ddeddfau lleol).

31. Mae'r gwelliannau a wnaed yn galluogi plant i weithio am fwy na dwy awr ar ddydd Sul, i weithio am hyd at awr cyn yr ysgol a tan 8pm yn hytrach na 7pm. Pe bai'r gwelliant hwn yn cwmpasu Lloegr yn unig, byddai'n anfantais i blant a chyflogwyr Cymru, yn enwedig y rheini sy'n rhychwantu'r ffin, gan gyfyngu o bosib ar gyfleoedd i blant a chyflogwyr Cymru.

32. Mae'r pwerau gwneud rheoliadau yn cynnwys pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol/Gweinidogion Cymru yng Nghymru wahardd plant rhag ymgymryd â mathau penodol o waith. Pe na bai Cymru yn cael ei chynnwys yn y gwelliannau, byddai hyn yn golygu y byddai'r pŵer hwn yng Nghymru yn aros yn nwylo awdurdodau lleol unigol, a allai arwain at wahaniaethau sylweddol yn y ddarpariaeth.

**Goblygiadau ariannol**

33. Mae'n debygol na fydd unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru, i Lywodraeth Cymru nac i Awdurdodau Lleol heblaw mewn perthynas â chostau gweinyddol. Efallai y bydd goblygiadau i gyflogwyr o orfod gwneud cais am drwydded cyn iddynt gyflogi plentyn os nad oes gofyn iddynt wneud hynny ar hyn o bryd am nad oes is-ddeddfau sy'n darparu ar gyfer hyn yn eu hardal. Gall rheoliadau gynnwys mecanweithiau hefyd i gyflogwyr apelio yn erbyn awdurdod lleol sy'n gwrthod rhoi trwydded iddynt.

**Casgliad**

34. Yn fy marn i, mae'n briodol i Senedd y DU ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y byddant yn gwella polisi presennol ac arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyflogaeth plant a diogelu. Hyd y gallaf ddweud, nid ydym erioed wedi derbyn unrhyw geisiadau gan awdurdod lleol i gymeradwyo is-ddeddf. O'n trafodaethau gydag arweinwyr diogelu awdurdodau lleol maent wedi bod yn gefnogol i'r gwelliannau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth ac yn cytuno â nhw. Mae'n ymddangos bod y ddeddfwriaeth fwy neu lai yn ailadrodd ac yn normaleiddio arferion presennol, i'r graddau ein bod yn credu bod gwahaniaethau sylweddol eisoes i drefniadau presennol cyflogwyr ynghylch darpariaethau sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn yr Ail Ryfel Byd, ac

nad ydynt yn gyson ag arferion gwaith modern. Rwy'n argymell felly bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**28 Mai 2025**